# Grŵp Llandrillo Menai
# Y Cynllun Ffioedd a Mynediad

## 2025-2026 & 2026-2027

# Rhan Dau:  Y Cynllun Ffioedd a Mynediad

| Y Cynllun Ffioedd a Mynediad | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | Grŵp Llandrillo Menai |
| Cyfnod y Cynllun Ffioedd a Mynediad | 1 Awst 2025 hyd at 31 Gorffennaf 2027 |
| **Adran 1 – Lefelau ffioedd** | |
| **Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu'r modd y pennir lefel y ffioedd ym mhob lleoliad** | |
| **Lefel y ffioedd** | **Lleoliad y cwrs** |
| Myfyrwyr lefel 4 llawn amser newydd (y rhai a fydd yn dechrau 2025/2026 a 2026/2027), a myfyrwyr newydd a fydd yn dechrau'n syth ar lefel 5 a 6 ac nad ydynt wedi astudio yn GLIM o'r blaen £8,300 | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Llandrillo-yn-Rhos.<br>Cymwysterau: Tystysgrif Addysg Uwch, Gradd Sylfaen (FdSc, FdA, FdEng), Gradd Gyntaf (BSc, BA, BEng). |
| | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Y Rhyl.<br>Cymwysterau: HNC, HND, Tystysgrif Addysg Uwch. |
| | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Dolgellau.<br>Cymwysterau: HNC, HND, Gradd Sylfaen (FdSc, FdA), Gradd Gyntaf (BA). |
| | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Parc Menai.<br>Cymwysterau: Gradd Sylfaen (FdA);  Gradd Gyntaf (BA). |
| | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Llangefni.<br>Cymwysterau: HNC, HND Gradd Sylfaen (FdA), Gradd Gyntaf (BA). |
| Myfyrwyr GLIM lefel 5 a lefel 6 llawn amser sy'n parhau (y rhai a | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Llandrillo-yn-Rhos. |

| | |
|---|---|
| ddechreuodd yn 2025/2026 a 2026/2027) £8,300. | Cymwysterau: HND, Gradd Sylfaen (FdSc, FdA, FdEng), Gradd Gyntaf (BSc, BA, BEng (L6 Atodol)). |
| | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Dolgellau.<br>Cymwysterau: HND, Gradd Sylfaen (FdSc, FdA), Gradd Gyntaf (BA (L6 Atodol)). |
| | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Parc Menai.<br>Cymwysterau: Gradd Sylfaen (FdA);  Gradd Gyntaf (BA (Blwyddyn atodol L6), BA) |
| | Mae lefel y ffioedd yn berthnasol i flynyddoedd academaidd 2025/26 a 2026/27.<br>Safle Grŵp Llandrillo Menai: Llangefni.<br>Cymwysterau: HND, Gradd Sylfaen (FdA), Gradd Gyntaf (BA (L6 Atodol)). |

*Bydd GLIM yn cyhoeddi'r datganiad canlynol:*

Gall y ffioedd blynyddol ar gyfer addysg uwch gynyddu'n unol â chwyddiant yn achos myfyrwyr a fydd yn dechrau astudio yn 2025/26 neu 2026/27.

Mae'r datganiad hwn wedi'i gyhoeddi ar gyfer bob blwyddyn o 2019/20 ymlaen. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, nid yw'r coleg wedi cynyddu lefelau ei ffioedd ers saith mlynedd.

**Adran 1.2 – Lefelau ffioedd cyfanredol**

*Gall ymgeiswyr a myfyrwyr cyfredol weld y ffioedd yn y polisi ar ffioedd dysgu sydd ar y dudalen ffioedd cyrsiau ar wefan GLIM, ac yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad a gyhoeddwyd. Bydd y datganiad ynghylch ffioedd cyfanredol, sydd ar y dudalen ffioedd cyrsiau, yn cael ei ddiwygio i:*

Mae'r ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd llawn amser yn £8,300 y flwyddyn ar hyn o bryd, sy'n gwneud cyfanswm cyfanredol o £24,900 am raglen tair blynedd llawn amser. Gall y ffioedd blynyddol gynyddu'n unol â chwyddiant (gan ddefnyddio graddfa chwyddiant CPIH y mis Medi blaenorol yn ôl gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)). Ni fydd codi ffioedd yn ôl chwyddiant yn golygu y bydd y ffioedd yn uwch na'r lefel uchaf a nodir yn y ddeddfwriaeth (£9,250k y flwyddyn yng Nghymru ar hyn o bryd).

Bydd unrhyw newidiadau posibl i ffioedd yn cael eu trafod o fewn strwythurau mewnol AU GLIM a'u cadarnhau gan y corff Llywodraethu, gan gynnwys Llywydd Undeb Myfyrwyr AU GLIM. Bydd newidiadau'n cael eu cyfleu i fyfyrwyr presennol drwy e-bost uniongyrchol i'r myfyrwyr (ar hyn o bryd Mailchimp a'r dudalen Moodle (VLE) yn ogystal â'r dudalen agored ar ffioedd cyrsiau) a hysbysiad gan yr holl diwtoriaid personol

yn ystod sesiwn diwtorial wedi'i hamserlennu ac amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) cyrsiau unigol cyn i unrhyw newidiadau ddigwydd. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am newidiadau trwy gyfathrebiadau cais, a bydd gwybodaeth wedi'i diweddaru yn cael ei hychwanegu at y *dudalen ffioedd cyrsiau.*

## Adran 2 – Partneriaeth â Myfyrwyr

**Rôl Llywydd(ion) Addysg Uwch yr Undeb Myfyrwyr**

Mae Llywydd Addysg Uwch Undeb Myfyrwyr GLIM yn cael ei ethol i'r swydd gyflogedig ran-amser hon (10 awr y mis). Mae Llywydd Addysg Uwch Undeb y Myfyrwyr yn adrodd i'r Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr (Coleg Llandrillo), sydd â chefnogaeth uniongyrchol gan y Swyddog Cyfoethogi Profiadau Myfyrwyr y Grŵp ac sy'n gweithio'n agos gyda Rheolwr Datblygu Addysg Uwch y Grŵp.


Mae penodiad Llywydd Addysg Uwch Undeb y Myfyrwyr yn cynrychioli buddiannau'r myfyrwyr. Mae'n annog cyfranogiad ehangach myfyrwyr, cydweithio a chael llais ehangach myfyrwyr trwy gyfarfodydd ar-lein, grwpiau ffocws, gweithgareddau wyneb yn wyneb, y gynhadledd flynyddol i fyfyrwyr, a gweithgareddau cyfoethogi. Mae hyn yn cynnwys recriwtio a threfnu cyfarfodydd cynrychiolwyr gwirfoddol i'r Undeb, cefnogi a chysylltu â chynrychiolwyr safleoedd a chyrsiau, cysylltu â myfyrwyr a staff, trefnu grwpiau ffocws myfyrwyr a gweithgareddau, mynd i ddigwyddiadau allanol lle gofynnir am gynrychiolaeth myfyrwyr a chefnogi myfyrwyr yn ystod eu hamser yn y Coleg. Cysyllta Llywydd(ion) AU Undeb y Myfyrwyr â'r cynrychiolwyr AU drwy grwpiau e-bost, fforymau Google Classroom a thrwy grwpiau ffocws.

Mae'r Llywyddion AU yn aelodau o'r prif bwyllgorau lle caiff materion yn ymwneud ag AU eu monitro a'u hadrodd ymlaen: Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Safonau ac Ansawdd AU, Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau (un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Llywodraethu), a Bwrdd Llywodraethu GLIM. Mae Llywydd(ion) AU Undeb y Myfyrwyr yn aelod allweddol o'r grŵp a phwyllgorau o ran darparu llais corff myfyrwyr wedi'i goladu, goruchwyliaeth, monitro ac adolygu materion a chynigion AU, megis cynllun ffioedd a mynediad (FAP), polisïau AU, effaith llais myfyrwyr ac ansawdd AU.

Lle gall fod aflonyddwch i swydd Llywydd(ion) AU, mae rôl y Swyddog Cyfoethogi Profiadau Myfyrwyr yn sicrhau ymagwedd gyson flynyddol at lais ehangach y myfyrwyr, sy'n parhau i fod yn ffocws trwy'r system cynrychioli myfyrwyr. Er enghraifft, ymddiswyddodd Llywydd AU Undeb y Myfyrwyr yn gynnar yn 2024 oherwydd rhesymau personol, ac nid oedd dirprwy yn gallu camu i'r swydd; dilynodd y swyddog cyfoethogi profiadau myfyrwyr gynllun gweithredu Llywydd AU Undeb y Myfyrwyr, a gymeradwywyd gyda'r Llywydd AU ar ddechrau'r flwyddyn, i ymgysylltu â'r cynrychiolwyr ehangach ar eitemau sy'n weddill megis adolygiad blynyddol diwedd blwyddyn o'r Siarter AU.

Dengys y siart isod bwyllgorau rheoli a strwythur adrodd y coleg. Mae * goch yn dynodi'r pwyllgorau y bydd Llywydd AU Undeb y Myfyrwyr yn eu mynychu i gynrychioli llais y myfyrwyr.

*Updated May 2024*



**Cynrychiolwyr y Myfyrwyr AU**

Yn flynyddol, bydd pob blwyddyn o bob cwrs AU yn ethol cynrychiolydd myfyrwyr a fydd yn cymryd rhan mewn sesiwn hyfforddi Cynrychiolwyr Dysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall natur y rôl yn llawn a phwysigrwydd bod yn ddolen gyswllt effeithiol rhwng y myfyrwyr y maent eu cynrychioli a'r coleg, gan adrodd yn ôl a chyfrannu at gryfhau rhaglenni a gweithrediadau AU yn y coleg.

Yn ystod y flwyddyn, gwahoddir cynrychiolwyr myfyrwyr AU i gymryd rhan mewn cyfarfodydd i drafod ansawdd parhaus profiad y myfyrwyr ac anghenion y myfyrwyr presennol. Gall hyn gynnwys cyfarfodydd tîm rhaglen i gefnogi ansawdd parhaus profiad y myfyrwyr, grwpiau ffocws ar wasanaethau megis cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu, trafodaeth Cynhadledd Myfyrwyr ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a gweithgareddau FAP a'r paneli myfyrwyr AU. Caiff y rhain eu cadeirio gan bennaeth y coleg perthnasol a bydd y Cyfarwyddwr Addysg Uwch a Phenaethiaid Cynorthwyol y meysydd cwricwlwm AU yn bresennol.

Cyflwynir cofnodion paneli adborth y myfyrwyr AU, ynghyd ag ymateb y coleg i'r drafodaeth a gafwyd a'r materion a godwyd (Mi Ddwedoch Chi, Mi Wnaethon Ni) yn dymhorol i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau (un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Llywodraethu). Caiff y cofnodion Mi Ddwedoch Chi – Mi Wnaethon Ni eu cyhoeddi ar borth y myfyrwyr o'r enw eDrac y Dysgwr.

**Y Gynhadledd Flynyddol i Fyfyrwyr**

Trefnir y Gynhadledd Flynyddol i Fyfyrwyr mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr. Mae'r gynhadledd yn ategu dulliau GLIM o gynnwys myfyrwyr ar y cyd â phrosesau sicrhau ansawdd cadarn y coleg a'i drefnau o ran cael adborth parhaus gan ddysgwyr ac ymateb colegol ac adrannol priodol i'r adborth hwnnw.

Pwrpas cyffredinol y gynhadledd yw cryfhau'r gymuned o fyfyrwyr, sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu mwy effeithiol o ran llais myfyrwyr AU, a sicrhau dull a arweinir gan fyfyrwyr o gefnogi pynciau cyfoes sy'n effeithio ar fywyd myfyrwyr. Yn ei dro, mae canlyniadau'r gynhadledd myfyrwyr yn llywio cynllunio ar gyfer y dyfodol a fydd yn ehangu cyfranogiad ymhellach, ynghyd â gwella profiadau'r myfyrwyr AU a'r seilwaith ar gyfer eu cefnogi.

Mae'r myfyrwyr yn gwrando ar amrywiol gyflwyniadau, cymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngweithiol a rhannu'n grwpiau llai ar gyfer tasgau. Ar gyfer myfyrwyr AU, mae un dasg grwpiau llai bob amser yn galluogi'r myfyrwyr i ddeall mwy am y cynllun ffioedd a mynediad (FAP) a'r gweithgareddau cysylltiedig i gefnogi myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae adborth y myfyrwyr yn llywio ein cynllun ffioedd a mynediad, gan gynyddu cyfranogiad a mynediad i ddarpariaeth AU GLIM a chychwyn gweithgareddau newydd.

**Arolygon adborth myfyrwyr a grwpiau ffocws:**

Gwahoddir pob myfyriwr AU i gwblhau arolwg cynefino mewnol i adolygu'r cais, y cyfnod cynefino a'r croeso. Defnyddir hwn gan feysydd gwasanaeth megis derbyniadau, llyfrgelloedd a gwasanaethau i ddysgwyr i adolygu'r gweithgareddau yn seiliedig ar lais y myfyrwyr ac i

gynllunio gwelliannau i weithgareddau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Mae'n rhan bwysig o groesawu myfyrwyr, gan sicrhau eu bod yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael a phwy i gysylltu â nhw er mwyn cefnogi cadw myfyrwyr o ddechrau un y flwyddyn academaidd.

Bob semester, gwahoddir pob myfyriwr AU i gwblhau gwerthusiadau mewnol o'r modiwlau  i sicrhau bod adborth modiwl pwrpasol yn cael ei gasglu ar gyfer pob modiwl y mae pob myfyriwr yn ei astudio. Mae hyn yn galluogi'r adrannau (a elwir yn feysydd rhaglen) i fynd i'r afael â phryderon yn ddiymdroi ac yn ystod y flwyddyn academaidd berthnasol, yn ogystal ag i rannu arferion da ac ymateb i adborth ehangach y myfyrwyr.

Anelir yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) at fyfyrwyr llawn amser sydd ar flwyddyn olaf cyrsiau Gradd Sylfaen a chyrsiau Gradd Bagloriaeth tair blynedd. Mae Llywydd(ion) Undeb y Myfyrwyr yn cymryd camau i bwysleisio i fyfyrwyr pa mor bwysig yw cymryd rhan yn yr arolwg NSS; mae'r adborth a gawn yn hanfodol er mwyn ein galluogi i gryfhau'n darpariaeth ymhellach.

Yn fewnol, dadansoddir canlyniadau'r arolwg gan reolwyr sicrhau Ansawdd a rheolwyr rhaglen (neu fesul clwstwr os yw nifer yr ymatebwyr yn is na 10).  Lle gall ymateb i CCAUC fod yn berthnasol ar ddeilliannau sy'n sylweddol is na'r meincnod, caiff y rhain eu hadolygu a'u datblygu fel cynllun gweithredu sefydliadol gan y broses ansawdd sy'n cynnwys adborth gan gynrychiolwyr staff a myfyrwyr.  Pan fo camau gweithredu'n fewnol ac yn cynnwys camau gweithredu rhaglen â ffocws, caiff y rhain eu mynegi yn y Cynllun Datblygu Ansawdd yn yr Adolygiad Blynyddol o'r Rhaglen a'u hategu gan adborth y myfyrwyr.  Caiff y camau gweithredu hyn eu monitro ar lefel maes rhaglen a hefyd bob dau fis yn y Grŵp Safonau ac Ansawdd AU (gweler uchod Strwythurau Rheoli ac Adrodd GLIM mewn perthynas ag AU).  Yn 22/23, roedd cyfradd ymateb y myfyrwyr yn 83%, 8% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a 12% yn uwch na'r sector.  Roedd y boddhad cyffredinol yn 83% yn gadarnhaol, 6% yn uwch na'r llynedd, 6% yn uwch na'r sector, ac mae GLIM yn 5ed yng Nghymru ar gyfer Boddhad Cyffredinol.

Gwahoddir myfyrwyr i grwpiau ffocws neu arolygon ad-hoc sy’n llywio ac yn monitro gweithgarwch yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y mathau o weithgarwch yn addas ar gyfer y carfannau presennol, er enghraifft, mathau o weithgareddau llesiant, gweithgarwch gyrfaoedd a chyflogadwyedd penodol, sesiynau cymorth digidol, a sesiynau arweiniad ariannol.

**<u>Y Siarter i Fyfyrwyr AU</u>**

Mae'r myfyrwyr yn cyfrannu at ddatblygu ac adolygu Siarter AU y coleg, sy'n amlinellu disgwyliadau a chytundebau ac yn nodi pa wasanaethau y bydd y coleg yn eu darparu.  Mae myfyrwyr yn cyfrannu adborth trwy grwpiau ffocws neu arolygon i gadarnhau eu bod yn cytuno â datganiadau GLIM, diweddaru terminoleg ac unrhyw geisiadau am ddolenni pellach i gefnogi'r datganiadau.  Mae hyn yn sicrhau cyfraniad myfyrwyr at brosesau monitro a llywodraethu.

| Adran 3 – Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol |
|---|

Drwy gyfrwng ei gynllun ffioedd a mynediad, a fwriedir i wella cyfle cyfartal yng Nghymru, bydd GLIM yn cefnogi'r grwpiau canlynol a dangynrychiolir:

1. Wedi'i nodi gan CCAUC fel un a dangynrychiolir mewn addysg uwch:
   - Myfyrwyr o bob oed o'r ddau gwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019;
   - Myfyrwyr o bob oed o'r cwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019;
   - Pobl o bob oed o ardaloedd o'r DU sydd â chyfranogiad isel mewn Addysg Uwch;
   - Myfyrwyr o bob oed a fyddai'n elwa o ddilyn cyrsiau Addysg Uwch rhan-amser;
   - Myfyrwyr o bob oed sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Wedi'i nodi gan GLIM fel un a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn GLIM:
   - Dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cynnwys anableddau;
   - Dysgwyr o gefndiroedd lleiafrif ethnig.

Drwy gyfrwng ei raglen Ymestyn yn Ehangach, bydd GLIM yn cefnogi ac yn ymgysylltu â'r dysgwyr canlynol:

Y grwpiau blaenoriaeth canlynol yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc):

- Pobl ifanc hyd at 18 oed;
- Oedolion nad oes ganddynt gymwysterau Lefel 4 ac sy'n 21 oed a hŷn;
- Pobl ifanc ôl-16 mewn dysgu hyd at lefel 4;
- Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys cefnogi dysgu Cymraeg fel ail iaith a chefnogi'r diwylliant Cymreig.

- Ymhellach, dysgwyr o bob oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal, waeth beth fo'r MALIC.

| Adran 4 – Amcanion sy'n ymwneud â chefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo Addysg Uwch | |
|---|---|
| **Adran 4.1 – Cyfle Cyfartal** | |
| Amcan 1 | Cynyddu lefelau recriwtio, cadw a chyflawni dysgwyr AU o grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol a myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig. |
| Amcan 2 | Darparu cymorth academaidd a lles o ansawdd uchel i grwpiau a dangynrychiolir a myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pob dysgwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. |

| | |
|---|---|
| Amcan 3 | Cynyddu ymgysylltiad myfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg |
| **Adran 4.2 – Hyrwyddo Addysg Uwch** | |
| Amcan 1 | Gwella hyrwyddiad cyrsiau addysg uwch rhan-amser. |
| Amcan 2 | Cynyddu a gwella hyrwyddiad cyrsiau addysg uwch i fyfyrwyr lefel 2 a 3 i godi eu dyhead i astudio addysg uwch. |
| Amcan 3 | Cynyddu a gwella hyrwyddiad cyrsiau addysg uwch i'r gymuned leol i godi'r dyhead i astudio addysg uwch. |

# Awdurdodi cais Cynllun Ffioedd a Mynediad i'w gyflwyno i CCAUC

Wrth awdurdodi ceisiadau cynllun ffioedd a mynediad, mae'r corff llywodraethu yn:

i. cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru a'i fod yn elusen;

ii. cadarnhau ei fod wedi gweld ac ystyried y dystiolaeth i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

iii. cadarnhau y bu ymgynghori priodol â'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad a'r rhai sy'n astudio mewn sefydliadau sy'n darparu addysg ar ei ran;

iv. cadarnhau bod y wybodaeth a gyflwynir yn y cais cynllun ffioedd a mynediad yn gywir a chyfredol ar amser ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;

v. cadarnhau bod: **[ewch ati i ddileu un neu fwy o ddatganiadau, fel sy'n briodol]**
   a. ei bod yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd neu unrhyw wybodaeth arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir, pa un ai a yw'r wybodaeth/data wedi'i darparu'n wreiddiol er diben rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 ai peidio;
   b. fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, cyfredol, mwy diweddar i arwain asesiad CCAUC;

vi. cadarnhau ei fod yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliad i ennyn gwell dealltwriaeth o gymhwystra'r sefydliad o ran rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd yn y cynllun ffioedd a mynediad ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, yr ymgeisydd;

vii. cadarnhau ei fod yn deall bod yn rhaid i CCAUC a/neu asiant CCAUC dderbyn gwybodaeth, cymorth a mynediad at ei gyfleusterau yn ogystal â chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran;

viii. cadarnhau ei fod yn deall y gall CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad o ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran y sefydliad, a rhaid i'r corff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roir gan CCAUC neu'r corff a benodir gan CCAUC i'r diben hwn;

ix. cadarnhau bod yr holl addysg a ddarperir gan, neu ar ran y sefydliad, ni waeth ar ba lefel neu ym mha leoliad, wedi cael ystyriaeth yng nghais y cynllun ffioedd a mynediad.  yr holl addysg a ddarperir gan, neu ar ran y sefydliad, ni waeth ar ba lefel neu ym mha leoliad, wedi cael ystyriaeth yng nghais y cynllun ffioedd a mynediad;

x. cadarnhau bod y risg i'r sefydliad fethu ar sail ariannol yn isel yn y tymor canolig a'r tymor hir;

xi. cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan archwiliwr cofrestredig ac nad yw'r archwiliwr cofrestredig yn perthyn i'r un cwmni a/neu unigolyn ag sydd wedi paratoi'r cyfrifon.;

xii. cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch;

xiii. deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau a wnaed i fyfyrwyr yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad, fel y'i cymeradwywyd gan CCAUC;

xiv. cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi'r un gyfran o incwm ffioedd cyrsiau israddedig llawn amser i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch a pheidio â lleihau buddsoddiad i hyrwyddo cyfle cyfartal y bwriedir iddo gefnogi y rhai heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch yn unig

xv. cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad fel sefydliad i'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach sy'n cyd-fynd â'i Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ymestyn yn Ehangach;

xvi. cadarnhau y bydd yn parhau i gynnal lefel y gefnogaeth i fyfyrwyr;

xvii. cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau y gall copi o'r cynllun ffioedd a mynediad fod ar gael i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat.;

xviii. cadarnhau y bydd y sefydliad yn cyfeirio ei fyfyrwyr yn glir at brosesau cwyno CCAUC;

xix. gwneud popeth rhesymol i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n dilyn cyrsiau ôl-raddedig;

xx. yn ystyried y ffordd orau i'r buddsoddiad gefnogi'r myfyrwyr a gafodd eu heffeithio fwyaf gan bandemig Covid-19 lle nad ydynt wedi'u hadnabod fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol eisoes;

xxi. yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn dysgwyr, ymgysylltu â dysgwyr, cyfle cyfartal, a chefnogi a hyrwyddo lles ei myfyrwyr a'i staff.

| **Cyflwyno'r Cynllun Ffioedd a Mynediad i CCAUC[1]** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | 08.05.24 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | 08.05.24 |
| **Cyflwynir y Cynllun Ffioedd a Mynediad terfynol unwaith y bo CCAUC wedi cadarnhau nad oes materion pellach yn codi (lle y bo hynny'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: | |
| Dyddiad: | |

1